| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Hugh Evans<br>Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karen Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl:** | **Penodi Aelodau i Gyrff Allanol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adolygu a chadarnhau penodiadau aelodau i fod ar gyrff allanol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ac ar ôl ffurfio'r Cyngor newydd, mae angen adolygu a chadarnhau penodiadau'r cynghorwyr sir i sefydliadau allanol (cyrff allanol).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Cabinet yn ystyried penodi aelodau i'r cyrff allanol a ddangosir yn Atodiad 1.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Cyngor fel arfer yn derbyn ceisiadau gan nifer o gyrff allanol (h.y. sefydliadau neu grwpiau sydd y tu allan i'r Cyngor Sir) i benodi cynghorwyr sir i gyfrannu tuag at eu gwaith.

4.2 Ar ôl etholiadau mis Mai ac ar ôl ffurfio'r Cyngor newydd, mae'n briodol i'r Cyngor ystyried ceisiadau a safbwyntiau ei aelodau ei hun a chadarnhau nifer o benodiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y rhestr sydd wedi'u hatodi.

4.3 Mae penodiadau i sefydliadau allanol yn cael eu dirprwyo i Aelodau Arweiniol priodol dan Gyfansoddiad y Cyngor, ond oherwydd nifer y penodiadau sydd eu hangen ar draws ystod eang o feysydd portffolio, mae gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r penodiadau hyn drwy gydbenderfynu.

4.4 Mae canlyniadau'r ymgynghoriad gydag aelodau, swyddogion a'r cyrff allanol yn dangos bod angen rhagor o wybodaeth cyn i benodiadau i rai cyrff allanol gael eu cadarnhau. Felly, rhagwelir y bydd gofyn i aelodau arweiniol perthnasol benodi i nifer bach o gyrff allanol yn y dyfodol agos.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r penodiadau’n cael eu gwneud i nifer o sefydliadau y gall eu gwaith ategu nodau a gweithgarwch y Cyngor ei hun a’i flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Gall aelodau sy’n cael eu penodi i sefydliad allanol – os nad oes gan y sefydliad dan sylw ei gynllun tâl ei hun – fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth gan y Cyngor am fynd i gyfarfodydd y corff allanol (gweler Atodiad 2 Cynllun Lwfansau Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor am fanylion).

6.2 Gall nifer fechan o gyrff allanol godi ffi aelodaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer penodi cynghorwyr sir i sefydliadau allanol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd gyda’r holl aelodau a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ynglŷn â’r rhestr o gyrff allanol cyn yr etholiad i gasglu barn ar werth penodi cynghorwyr i sefydliadau unigol. Ymgynghorwyd gyda’r aelodau ynglŷn â datganiadau o ddiddordeb mewn cael eu penodi i fod ar y cyrff allanol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd angen cynnwys costau mewn perthynas â’r mater hwn o fewn y gyllideb gyffredinol ar gyfer costau aelodau. Dylid ystyried a yw unrhyw ffioedd sy’n gysylltiedig â bod yn aelod o sefydliad yn rhoi gwerth am arian i’r Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae’n bwysig bod aelodau'r Cyngor yn rhan o broses lywodraethu cyrff allanol priodol y mae eu gwaith yn ymwneud llawer â gwaith y Cyngor ei hun neu'n cael effaith ar gymunedau lleol. Yn yr achos hwn, os na phenodir yn briodol, mae risg na fydd buddiannau Cyngor a thrigolion Sir Ddinbych yn cael eu hadlewyrchu'n iawn yng ngweithgarwch sefydliadau allanol.

10.2 Fodd bynnag, mae disgwyl i lwyth gwaith yr aelodau hynny sy’n cael eu penodi i gyrff allanol gynyddu ac mae'n bosib' y bydd ganddynt lai o amser ar gael i ymwneud â chyfarfodydd a gweithgareddau'r Cyngor. Gall penodi aelodau hefyd greu costau i’r Cyngor drwy dalu costau teithio a chynhaliaeth y mae'r aelodau'n eu cael drwy wasanaethu rhai cyrff allanol i'r aelodau hynny.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Fel y nodir dan Adran 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae penodi aelodau i gyrff allanol yn swyddogaeth sydd gan y Cabinet ac yn un y gall aelodau Cabinet unigol ymgymryd â hi wrth benodi i sefydliadau allanol sydd o fewn eu portffolio Cabinet nhw.

Oherwydd nifer ac ystod y sefydliadau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn, mae gofyn i’r Cabinet gydbenderfynu.